

Agenda – Y Pwyllgor Deisebau

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd Gareth Price – Clerc y Pwyllgor
Hybrid 0300 200 6565
Dyddiad: Dydd Llun, 9 Hydref 2023 Deisebau@senedd.cymru
Amser: 14.00

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau
- 2 Sesiwn dystiolaeth – Panel 1 – P-06-1335 Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau y gall oedolion agored i niwed heb gerdyn banc dalu ag arian parod

Steven Mc Gee

Janet Jones

Wayne Crocker, Cyfarwyddwr Mencap Cymru

Dot Gallagher – Cadeirydd Mencap Mon

- 3 Sesiwn dystiolaeth – Panel 2 – P-06-1335 Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau y gall oedolion agored i niwed heb gerdyn banc dalu ag arian parod

Ben Cottam – Ffederaswin y Busnesau Bach, Pennaeth Cymru

Trudy Davies – Woosnam & Davies News, Llanidloes



4 Deisebau newydd

4.1 P-06-1359 Dylid cynnig yr un cymorth ariannol ar gyfer gofal plant i rieni sy'n gweithio yng Nghymru â'r hyn sydd ar gael yn Lloegr

(Tudalennau 1 – 10)

4.2 P-06-1363 Achubwch ein Gwasanaeth Tân ac Achub

(Tudalennau 11 – 16)

5 Y wybodaeth ddiweddaraf am ddeisebau blaenorol

5.1 P-06-1161 Casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn

(Tudalen 17)

5.2 P-06-1337 Prynu Sycharth, Cartref Owain Glyndwr, er mwyn cadw'r safle yn saff i genedlaethau'r dyfodol

(Tudalennau 18 – 19)

5.3 P-06-1358 Adolygu'r cyllid annigonol ar gyfer ysgolion yng Nghymru

(Tudalennau 20 – 21)

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

7 Trafod y dystiolaeth – P-06-1335 Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i sicrhau y gall oedolion agored i niwed heb gerdyn banc dalu ag arian parod

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Papur briffio ynghylch deiseb:

Gofal Plant Am Ddim

Y Pwyllgor Deisebau | 9 Hydref 2023
Petitions Committee | 9 October 2023

Cyfeirnod: SR236196-4

Rhif y ddeiseb: P-06-1359

Teitl y ddeiseb: Dylid cynnig yr un cymorth ariannol ar gyfer gofal plant i rieni sy'n gweithio yng Nghymru â'r hyn sydd ar gael yn Lloegr

Geiriad y ddeiseb: Yn Lloegr, o fis Ebrill 24, bydd pob rhiant sy'n gweithio â phlant 2 oed yn cael 15 awr o ofal plant am ddim. O fis Medi 24, bydd hyn yn cael ei estyn i rieni â phlant 9 mis oed a hŷn. O fis Medi 25, bydd nifer yr oriau o ofal plant am ddim yn cynyddu i 30.

Mewn cymhariaeth, yng Nghymru, bydd yn cymryd tan fis Medi 25 i ddarparu 12.5 awr o ofal plant am ddim i bob rhiant â phlant 2 oed. A hynny heb gynllun ar waith i rieni â phlant 9 mis oed a hŷn na chynyddu nifer yr oriau i 15 neu 30.

Rydym mewn argyfwng costau byw lle y mae gan Lywodraeth Cymru y gallu i gefnogi rhieni sy'n gweithio ond nid yw'n gwneud hynny.



1. Crynodeb

Mae gwahanol fathau o ofal plant am ddim yn cael eu cynnig yng Nghymru a Lloegr. Dyma grynodedb ohonynt:

- Yng Nghymru, mae Cynnig Gofal Plant Cymru ar gael i **rieni cymwys sy'n gweithio a chanddynt blant 3 a 4 oed**. O dan y cynllun hwn, gellir hawlio 30 awr yr wythnos am 48 wythnos y flwyddyn. Yn Lloegr, gellir hawlio 30 awr yr wythnos am 38 wythnos y flwyddyn. Yng Nghymru, cafodd yr hawl hwn ei ymestyn yn ddiweddar i gynnwys rhai rhieni sydd mewn addysg a hyfforddiant.
- Mae gan y ddwy wlad rywfaint o ddarpariaeth ar gyfer grwpiau penodol o blant sy'n **2 flwydd oed**, ond mae'r ddarpariaeth hon yn cael ei chynnig mewn gwahanol ffyrdd. Mae cynlluniau yn y ddwy wlad hefyd i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer plant sy'n 2 oed (ceir manylion isod).
- Yng nghyllideb y gwanwyn 2023, cyhoeddodd y Llywodraeth ei bod yn bwriadu ymestyn yr hawl i 30 awr o ofal yn Lloegr, fesul cam, i gynnwys rhieni sy'n gweithio a chanddynt blant **rhwng 9 mis a 3 blwydd oed, a hynny o fis Medi 2025 ymlaen**. O dan y drefn newydd, a gaiff ei chyflwyno fesul cam, y bwriad yw y bydd rhieni sy'n gweithio a chanddynt blant 2 oed yn gallu cael mynediad at 15 awr o ofal plant am ddim yr wythnos, o fis Ebrill 2024 ymlaen. Yna, o fis Medi 2024, y bwriad yw ymestyn y 15 awr hwn i rieni sy'n gweithio a chanddynt blant rhwng 9 mis a 2 flwydd oed. Yn olaf, ym mis Medi 2025, y bwriad yw y bydd yr holl rieni cymwys sy'n gweithio a chanddynt blant rhwng 9 mis a 3 blwydd oed yn gallu cael mynediad at 30 awr o ofal yr wythnos am ddim.

Mewn ymateb i'r ddeiseb hon, dywedodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol:

Mae'r Cynnig Gofal Plant ar gael i deuluoedd cymwys plant 3 i 4 oed ac mae'n darparu cymorth am 48 wythnos y flwyddyn, o'i gymharu â'r cynnig o 38 wythnos yn Lloegr. Er bod hyn yn cynnwys o leiaf 10 awr ar gyfer addysg gynnar yn ystod y tymor, mae gofal plant o 30 awr ar gael bob wythnos am 9 o'r wythnosau gwyliau.

Dywedodd y Dirprwy Weinidog hefyd:

Fe wyddoch am y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog, Mark Drakeford ym mis Awst, a oedd yn trafod y pwysau sylweddol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Oherwydd hynny, nid ydym mewn sefyllfa ar hyn o bryd i allu cadarnhau unrhyw

ddatblygiadau newydd ym maes gofal plant a sut y byddwn yn rhoi cymorth i deuluoedd ymdopi â chostau gofal plant yn y dyfodol.

2. Cyd-destun

Mae gofal plant am ddim yn cael ei ddarparu mewn ffyrdd amrywiol, yn dibynnu ar union oedran y plentyn, amgylchiadau cyflogaeth y rhieni, ac yn achos Dechrau'n Deg yng Nghymru, yr union leoliad daearyddol lle mae'r plentyn yn byw. Mae gan Gymru a Lloegr wahanol brosesau o ran darparu gofal plant, cofrestru ar ei gyfer a chynnal arolygon yn ei gylch.

Yn ogystal â gofal plant am ddim i rai plant, mae rhai buddion eraill ar gael ledled y DU, gan gynnwys [gofal plant di-dreth](#), a [chymorth ariannol arall gan Lywodraeth y DU ar gyfer rhieni](#). Gall rhieni hawlio gofal plant di-dreth ar yr un pryd ag y maent yn hawlio 15 neu 30 awr o ofal plant am ddim. Mae rhagor o gyngor ar gael i rieni ar y wefan hon: [Help gyda chostau gofal plant | Helpwr Arian](#).

3. Cymru

I grynhoi:

- [Cynnig Gofal Plant Cymru](#): gall rhieni cymwys sydd â phlant 3 a 4 oed hawlio 30 awr yr wythnos o ofal plant am ddim, a hynny am 48 wythnos y flwyddyn. Mae'r hawl i 30 awr o ofal plant yn cynnwys 20 awr o ofal plant a 10 awr yr wythnos o addysg blynyddoedd cynnar. Mae ymrwymiad yn y [Cytundeb Cydweithio](#) wedi arwain at ehangu'r meini prawf cymhwysra ar gyfer cael mynediad at ofal plant, a hynny er mwyn cynnwys rhieni sydd â phlant 3 a 4 oed ac sydd wedi cofrestru ar gyrsiau addysg bellach neu addysg uwch sy'n 10 wythnos o hyd, fan lleiaf.
- Gall **yr holl rieni sydd â plant 3 a 4 oed** hawlio o leiaf 10 awr yr wythnos o addysg blynyddoedd cynnar (a elwir hefyd yn ddarpariaeth feithrin y cyfnod sylfaen). Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnig o leiaf 10 awr yr wythnos o'r tymor ar ôl trydydd pen-blwydd y plentyn dan sylw, hyd nes iddo ddechrau addysg llawn amser. Yn ymarferol, mae rhai awdurdodau lleol yn cynnig mwy. O ran y rhieni hynny sy'n gymwys ar gyfer y cynnig gofal plant, mae'r oriau gofynnol wedi'u cynnwys yn y 30 awr o ddarpariaeth am ddim.
- **O ran pob plentyn 2 a 3 oed** sy'n byw mewn [ardal Dechrau'n Deg](#), ceir hawlio 2.5 awr y dydd o ofal plant am ddim, a hynny am 5 diwrnod yr wythnos ac am 39 wythnos y flwyddyn. Rhaid sicrhau bod o leiaf 15 sesiwn o ddarpariaeth gofal plant ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol. Rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer y blynyddoedd cynnar yw Dechrau'n Deg.

Mae wedi bod ar waith ers 2007, ac mae'n cael ei darparu gan awdurdodau lleol. [Yn y rhaglen lywodraethu](#), ceir yr ymrwymiad a ganlyn: "Mynd ati'n raddol i ehangu'r ddarpariaeth ar gyfer y blynyddoedd cynnar er mwyn cynnwys pob plentyn dwy flwydd oed, gan roi pwyslais penodol ar gryfhau'r ddarpariaeth Gymraeg". Mae Llywodraeth Cymru [yn dweud](#) bod mwy na 3,100 o blant ychwanegol wedi elwa hyd yma, a'i bod yn canolbwyntio ar gam nesaf y broses o ehangu'r ddarpariaeth.

4. Lloegr

I grynhoi:

- [Gall rhieni cymwys sydd â phlant 3 neu 4 oed hawlio 30 awr yr wythnos o ofal plant am ddim yn Lloegr](#), am 38 wythnos y flwyddyn (yn ystod y tymor ysgol).
- [Gall yr holl rieni sydd â phlant 3 neu 4 oed](#) hawlio 570 awr o addysg gynnar neu ofal plant am ddim bob blwyddyn. Yn aml, mae'r ddarpariaeth hon yn cael ei hawlio ar ffurf 15 awr yr wythnos am 38 wythnos y flwyddyn.
- [Gall rhieni cymwys sydd ar incwm isel â chanddynt blant 2 oed](#) hawlio 15 awr yr wythnos am 38 wythnos y flwyddyn. O fis Ebrill 2024 ymlaen, y nod yn Lloegr yw ymestyn y ddarpariaeth hon, sef 15 awr o ofal plant, i gynnwys rhieni sy'n gweithio a chanddynt blant 2 oed.
- Yng nghyllideb y gwanwyn 2023, [cyhoeddodd y Llywodraeth](#) y byddai'r hawl i 30 awr o ofal yn cael ei ymestyn, fesul cam, i gynnwys plant rhwng 9 mis a 3 blwydd oed, a hynny o fis Medi 2025 ymlaen. Y bwriad yw y bydd rhieni sy'n gweithio a chanddynt blant 2 oed yn gallu cael mynediad at 15 awr o ofal plant am ddim yr wythnos, a hynny o fis Ebrill 2024 ymlaen. O fis Medi 2024 ymlaen, y bwriad yw ymestyn y trefniant hwn i rieni sy'n gweithio a chanddynt blant rhwng 9 mis a 2 flwydd oed. Yn olaf, ym mis Medi 2025, y bwriad yw y bydd yr holl rieni cymwys sy'n gweithio a chanddynt blant rhwng 9 mis a 3 blwydd oed yn gallu cael mynediad at 30 awr o ofal yr wythnos am ddim.

Gellir cael rhagor o wybodaeth yma:

- [Papur briffio Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin](#)
- [Help gyda chostau gofal plant yn Lloegr: Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin](#)

5. Gwaith craffu gan y Senedd

Yn 2021, cyhoeddodd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol adroddiad ar ofal plant a chyflogaeth rhieni: y pandemig a thu hwnt.

O ran y ddeiseb hon, ym mis Mawrth 2023, cafodd y Prif Weinidog ei holi am y cynlluniau a gyhoeddwyd o ran ehangu'r ddarpariaeth yn Lloegr, a sut mae'r sefyllfa yno yn cymharu â'r sefyllfa yng Nghymru. Dywedodd mai'r hyn yr ydym yn ei weld:

[...] yw ymgais yn Lloegr i ddal i fyny â gwasanaethau sydd eisoes ar gael yma yng Nghymru. Yn sicr nid yw'r ffordd arall.[...]. I blant tair a phedair oed, yma yng Nghymru, mae teuluoedd yn cael 30 awr o ofal plant am 48 wythnos o'r flwyddyn. Yn Lloegr, mae hynny'n 38 wythnos o'r flwyddyn; 10 wythnos yn llai yn Lloegr nag yr ydych chi'n eu cael yng Nghymru. Yma yng Nghymru, dim ond y llynedd, yn ein cytundeb cydweithio gyda Phlaid Cymru, rydym ni wedi ymestyn cyrhaeddiad y cynnig gofal plant i blant tair a phedair oed i bobl sydd ar drothwy cyflogaeth, ac mae 3,000 yn rhagor o rieni yn gallu manteisio ar y cynnig gofal plant hwnnw yma yng Nghymru dim ond o ran yr un agwedd honno. Fy nealltwriaeth i yw bod y Canghellor yn dweud y bydd 60,000 yn fwy o bobl yn ymuno â'r gweithlu o ganlyniad i'w fuddsoddiad mewn gofal plant. Mae gennym ni 3,000 eisoes o ganlyniad i'r hyn a wnaethom ar gyfer plant tair a phedair oed yn unig y llynedd, ac mae ein hanes o ehangu gofal plant i blant dwy oed yn rhywbeth sy'n ddyhead yn unig yn Lloegr.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrydd na'u diwygio i adlewyrchu newidiadau dilynol.



Eich cyf/Your ref P-06-1359
Ein cyf/Our ref MA/JMSS/00536/23

Jack Sargeant AS
Cadeirydd - y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

20 Medi 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich gohebiaeth dyddiedig 22 Awst, yn glŷn â'r ddeiseb gan Jade Richards yn gofyn i Lywodraeth Cymru ehangu'r cymorth gofal plant yng Nghymru i gyd-fynd â'r cynigion a gyhoeddodd y Canghellor ar gyfer Lloegr yng Nghyllideb y Gwanwyn.

Rwy'n cydnabod bod darpariaeth o ansawdd uchel yn y blynyddoedd cynnar yn allweddol bwysig wrth sicrhau bod pob plentyn yn cael profiad gwych yn ystod plentyndod, yn cael y dechrau gorau mewn bywyd ac yn cyflawni ei botensial.

Rydych yn ymwybodol, ein bod eisoes, drwy'r Rhaglen Lywodraethu ddiwygiedig, wedi ymrwymo i ehangu gofal plant a ariennir i blant dwy oed, ac mae hyn yn cael ei wneud drwy ein rhaglen Dechrau'n Deg. Mae'r rhaglen Dechrau'n Deg yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau plant sy'n byw yn rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Dengys tystiolaeth werthuso annibynnol bod Dechrau'n Deg yn cael effaith gadarnhaol ar fywydau teuluoedd ac wedi newid bywydau rhai o'r teuluoedd a oedd angen y cymorth fwyaf. Mae'r rhieni hyn wedi datgan bod Dechrau'n Deg wedi cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad eu plentyn a'i fod wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol i'w sgiliau a'u gwybodaeth nhw fel rhiant hefyd.

Mae darparu gofal plant rhan-amser o ansawdd uchel a ariennir ar gyfer plant 2-3 oed yn rhan annatod o Dechrau'n Deg. Dyna pam ein bod wedi dewis canolbwyntio ar ehangu'r ddarpariaeth drwy'r rhaglen Dechrau'n Deg yn hytrach na thrwy Gynnig Gofal Plant Cymru.

Mae'r Cynnig Gofal Plant ar gael i deuluoedd cymwys plant 3 i 4 oed ac mae'n darparu cymorth am 48 wythnos y flwyddyn, o'i gymharu â'r cynnig o 38 wythnos yn Lloegr. Er bod hyn yn cynnwys o leiaf 10 awr ar gyfer addysg gynnar yn ystod y tymor, mae gofal plant o 30 awr ar gael bob wythnos am 9 o'r wythnosau gwyliau.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Julie.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Ym mis Medi 2022, ehangwyd y meini prawf cymhwysra yng Nghymru i gynnwys rhieni mewn addysg a hyfforddiant. Cefnogodd y newid hwn dros 500 o deuluoedd ychwanegol yn ei flwyddyn gyntaf ac mae'n dangos ein bod yn rhoi cryn bwyslais ar gefnogi'r rhai sy'n ceisio gwella'u statws cyflogaeth trwy ennill cymwysterau, ailhyfforddi neu newid llwybrau gyrfa.


Fel rhan o Gyllideb y Gwanwyn cyhoeddodd y Canghellor fod Cymru yn cael £178m yn ychwanegol dros y ddwy flynedd nesaf (2023-24 a 2024-25) o ganlyniad i'r holl benderfyniadau gwariant a wnaed yn Lloegr, nid yn unig i ehangu gofal plant a ariennir. Roedd hyn yn golygu bod ein sefyllfa ariannol hyd at £900m yn is mewn termau real na'r hyn yr oeddem yn ei ddisgwyl - a'r hyn y dywedodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yr oedd ei angen ar Gymru - ar adeg yr adolygiad gwariant diwethaf yn 2021.

Pan luniwyd ein cyllideb ar gyfer 2023-24, defnyddiwyd yr holl adnoddau sydd ar gael i ni i ddiogelu gwasanaethau rheng flaen a darparu cymorth costau byw wedi'i dargedu i unigolion a'r economi.

Ar hyn o bryd, mae Gweinidogion yn gorfod gwneud penderfyniadau anodd iawn i sicrhau bod modd i ni gadw deupen llinyn ynghyd ac i'n hatal rhag mynd y tu hwnt i'n terfynau o ran gwariant, wrth geisio sicrhau hefyd ein bod yn anrhydeddu ein holl ymrwymadau cyfreithiol, gan gynnwys cytundebau cyflog i athrawon a staff y GIG.

Fe wyddwch am y datganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog, Mark Drakeford ym mis Awst, a oedd yn trafod y pwysau sylweddol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Oherwydd hynny, nid ydym mewn sefyllfa ar hyn o bryd i allu cadarnhau unrhyw ddatblygiadau newydd ym maes gofal plant a sut y byddwn yn rhoi cymorth i deuluoedd ymdopi â chostau gofal plant yn y dyfodol.

Yn gywir,



Julie Morgan AS/MS

Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

P-06-1359 Offer Welsh working parents the same financial support for childcare as England, Correspondence – Petitioner to Committee, 26.09.23

Mrs Morgan's response has not adequately addressed any of the points I have raised. The Welsh Government response is deflecting by focusing on their current Flying start provisions, rather than explaining why they're unwilling to match England's financial support for working parents despite being given the money to do so by the UK Government.

In her email she talks about budget constraints and balancing this including pay deals for teachers and NHS. This is deflecting from the fact the Welsh Government were specifically given a budget from the UK Government to spend on childcare to match England's policy if they chose to do so, therefore we're not asking for teachers and NHS budget to be spent on childcare. The Welsh Government have made no announcement on how they intend on spending this money and yet they've been aware of it since March 2023. (Q1) What have they spent this money on? (Q2) And have England allocated the same amount of £ per child, as they've allocated for Wales in their consequential? If they have, then Wales should be able to afford the same childcare scheme as England, so why are they choosing not to?

In 2021 the Welsh Government lost 155 million and don't have the best track record for finances so someone needs to hold them to account and ask where this money is going.

I don't doubt Flying Start has been beneficial to high needs families but that's where the roll out should have ended. Most families are not high needs that require Flying Start provisions. Most families are suffering financially in a cost of living crisis and that's why the expansion of the childcare provision would have worked better, it would help financially. More parents could go out to work generating more income tax for Wales. The Welsh Government have produced no evidence that their Flying Start roll out has helped reduce the number of children in Wales facing poverty, as far as I'm aware Wales still have a high number of children living in poverty.

Reasons Flying Start are not helping the majority of Welsh families -

1. To use the Flying Start hours you need to have a Flying Start registered provider. A lot of providers, particularly child minders, don't intend on registering with flying start. In my village not a single child minder intends on registering with FS because of the additional paperwork and training when they're already registered with the CSSIW. This means if your child already has a childcare provider they are attached to and thriving with, but they're not FS registered, you have to take them out of that setting should you want to use the hours. (Q3) How is this helping children thrive? The thinking behind this is FS is high quality childcare but it's up to parents to decide the right setting for their child, not the Welsh Government. Parents can read the CSSIW reports and decide on the quality of a setting themselves. In comparison English parents get 15 hours (later increased to 30) to spend wherever they like.
1. The 12.5 Flying Start hours are spread over 5 days so a child gets 2.5 hours a day. This means working parents would have to collect their child and drop them to another provider or pay an additional fee for a "wraparound" service. As a result many parents who are eligible for the hours have had to decline using them due to the disruption caused for their child and their workplace, despite needing the financial aid. This is a further block for parents in the workplace, particularly mothers. In comparison English parents get 15 hours (later increased to 30) to spend however they like.

1. The postcode lottery roll out truly is a disgrace. I have spoken to hundreds of families, some of which are eligible for FS and have informed me they don't need the hours as they're financially stable. And then I've spoken to some families who are desperate, and yet they're not eligible. Mrs Morgan and Mr Drakeford ~~both live in the same area~~ so may be familiar with the following area; Murch Crescent, Dinas Powys, a road with no affordable housing. Eligible for Flying Start. At the top of this is the Scholars Park estate. A new estate with a large proportion of affordable housing. Not eligible for Flying Start. (Q4) How is that helping children to thrive? In comparison English parents who work will all receive the 15 hours (later increased to 30) despite their postcode.

The parents of Wales have spoken, they've spoken to the media, they've sent the Welsh Government emails and they've signed the petition. It's very upsetting that despite this the Welsh Government are ignoring the needs of the many, and focusing on their own agenda meeting the needs of the few.

In preparation for a meeting with a minister I asked for stories from parents to share, I thought they would be worthwhile including here. It's worth noting that I had hundreds of responses and I didn't receive a single supportive response. Even those against the petition were not supportive of Flying Start -

█████ from Barry couldn't go back to work full time after having her daughter because her postcode wasn't eligible for flying start and after paying for childcare she would earn £4 a day.

█████ from Cardiff isn't living in a flying start postcode and has spent £28000 on childcare for her daughter in the last two years.

█████ from Cardiff is considering moving to a flying start area to qualify for free hours because paying her £1800 a month childcare bill for her two children is more than her £1300 monthly salary.

█████ from Caerphilly is living in a Flying Start area but was unable to use the 12.5 hours for her daughter because she was unable to pick her up due to work commitments, so she had to pay for private nursery anyway.

█████ from Newport lives in a flying start postcode but doesn't need the 12.5 hours as her family take care of her son. Her friends who live in the surrounding area desperately need the hours but aren't eligible.

█████ from Bridgend gave up work after her second child and now claims universal credit because it wasn't worth working after paying her childcare costs, she was not eligible for flying start.

█████ from Caernarfon and her husband both work but don't live in a flying start area. Childcare would cost them 1k + per month. They can't afford this without falling into debt so are not having children at the moment, despite wanting them."

(Q5) How is Flying Start helping these families in need?

My contact who runs a private nursery in North Wales has been working on this campaign with me. She gave me the following information from a childcare provider perspective -

“We feel we are currently being undermined and forgotten about as private day nurseries, in the government's plans for the expansion of the 2 year old funding. Flying start are accrediting and choosing their own settings over private day nurseries and we are being made to feel inadequate. I have yet to find online a flying start setting that has been awarded an excellent rating by CIW however my setting was awarded an overall excellent 2 weeks ago. My working parents are unable to use their funding as the hours are 9-11.30 in a designated flying start setting e.g a school as they are with me from 7.30-5.30pm as they are in work.

Working parents in Wales are at a loss compared to England, as from 2025 all children from the age of 9 months old of working parents will be eligible for 30 hours of funded childcare if they work 16 hours or more and earn under £100,000 a year. We get this in Wales currently for our 3 year olds with the same criteria. Working parents in Wales will only get 12.5 hours by 2025 in an accredited flying start setting. Is being registered with CIW not up to flying starts standards, this should be questioned?

Working parents should have the same funding as England to help with the costs of childcare, some of my parents work for nothing after paying childcare but they need to keep their professional jobs.

I find it a personal attack on private day nurseries when the Welsh government says they are providing better quality childcare in their flying start settings. This should be a parents choice where they use their funding.

Flying start was set up for children in deprived areas mainly non-working parents and it has proven to be successful and rewarding for many children. Expanding this particular programme is not the way forward for the working parents in Wales as it doesn't give flexibility, affordability and causes displacement within childcare settings. Childminders have voiced their opinions that they will not be part of the programme as they feel they are already registered with CIW and meet the national minimum standards and this should be sufficient but it's not.”

Many thanks
Jade Richards

Achubwch ein Gwasanaeth Tân ac Achub

Y Pwyllgor Deisebau | 9 Hydref 2020
Petitions Committee | 9 October 2020

Cyfeirnod: SR23/6916-5

Rhif y ddeiseb: P-06-1363

Teitl y ddeiseb: Achubwch ein Gwasanaeth Tân ac Achub

Geiriad y ddeiseb: Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, ynghyd â'r Awdurdod Tân, yn bwriadu israddio gorsafoedd Y Rhyl a Glannau Dyfrdwy o orsafoedd 24 awr i orsafoedd sydd wedi'u staffio yn ystod y dydd, gan adael y gorsafoedd yn wag gyda'r nos. Ar hyn o bryd, mae tair gorsaf amser llawn yng ngogledd Cymru, sef Wreccsam, Glannau Dyfrdwy a'r Rhyl. Mae staff yno 24 awr o'r dydd, 7 diwrnod yr wythnos. O dan y cynigion presennol, gall Y Rhyl a Glannau Dyfrdwy gael eu hisraddio i orsafoedd sydd â staff neu griw yno yn ystod y dydd yn unig, gan ddibynnu ar bersonél ar alw yn ymateb o'u cartrefi gyda'r nos. Rhagwelir y gallai fod 8-10 munud o oedi wrth gyrraedd digwyddiad. Mewn tân, mae pob eiliad yn bwysig, a bydd hyn yn sicr o achosi anafiadau, a hyd yn oed marwolaethau.



1. Cefndir

Yng Nghymru, Hannah Blythyn AS, y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol, sy'n gyfrifol am wasanaethau tân ac achub. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am oruchwylio'r broses o weithredu a rheoli gwasanaethau tân ac achub. Mae'n pennu polisi a strategaeth ym maes gwasanaethau tân ac achub, yn dyrannu cyllid, ac yn sicrhau bod gan wasanaethau gyfarpar digonol a'u bod yn barod i ymateb i argyfyngau, gan gynnwys tanau, damweiniau traffig ar y ffordd a digwyddiadau eraill.

Yr Awdurdod Tân ac Achub sy'n gyfrifol am reoli gwasanaethau tân ac achub o ddydd i ddydd, ac mae'r awdurdod hwnnw'n gweithredu o dan gyfarwyddyd a pholisïau a bennir gan Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, mae tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru, sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau tân ac achub yn eu rhanbarthau priodol:

- Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru
- Awdurdod Tân ac Achub De Cymru

O dan adran 21 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, rhaid i Weinidogion Cymru baratoi Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub a pharhau i adolygu'r fframwaith hwnnw. Rhaid i'r fframwaith nodi blaenoriaethau ac amcanion yr awdurdodau tân ac achub. Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Cymru 2016 yw'r fframwaith presennol.

Rhaid i'r awdurdodau tân ac achub roi sylw i'r fframwaith cenedlaethol wrth gyflawni eu swyddogaethau (o dan adran 21(7) o Ddeddf 2004), a chaiff **Archwilydd Cyffredinol Cymru** gynnal arolygiad i wirio a yw awdurdod yn cydymffurfio â'r gofyniad hwn (gweler Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, adran 24).

Ymgynghoriad gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Ar 21 Gorffennaf 2023, lansiodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ymgyngoriad cyhoeddus ynghylch y broses o ddarparu gwasanaethau brys yn y dyfodol yng Ngogledd Cymru. Cafodd yr ymgynghoriad ei gau ar 22 Medi 2023.

Nid oes penderfyniad wedi'i wneud ar y mater hwn eto. Mae tri opsiwn gwahanol wedi'u cynnig.

Gwneir pob ymdrech i sicrhau bod y wybodaeth yn y papur briffio hwn yn gywir adeg ei gyhoeddi. Dylai darllenwyr fod yn ymwybodol nad yw'r papurau briffio hyn yn cael eu diweddarau o reidrwydd na'u diwygio fel arall i adlewyrchu newidiadau dilynol.

P-06-1363 Save our Fire and Rescue Service, Correspondence – Petitioner to Committee, 03.10.23

Clwyd West MS Darren Millar has objected to all of three of the options North Wales Fire and Rescue Authority put forward in their consultation on the future provision of emergency fire and rescue service cover in North Wales.

Darren is concerned that all three options would lead to a reduction in cover at Rhyl Fire Station and in his response to the consultation has told the Authority that as such he is unable to support any of the options.

He also urged the Authority to consider the alternative option being proposed by firefighters.

His response states:

“While I applaud the Fire and Rescue Authority’s ambition to increase the ability to respond to incidents at more households within 20 minutes, I regret that I must strongly object to all of three of the options in the consultation document on the basis that they would all lead to a reduction in cover at Rhyl Fire Station.

“As you will be aware, crews in Rhyl provide cover for many of my constituents in the Towyn and Kinnel Bay area. This area has the largest number of households in Wales at risk of flooding and the population rises from around 10,000 to 70,000 in the summer months due to the large number of holiday caravans in the area.

“The catastrophic Towyn floods on 1990 are still etched into local memory and, should there ever be a repeat of such a major incident then it is critical that fire and rescue response crews are on hand immediately to assist, particularly if a flood took place at night during the visitor season.

“Holiday caravan fires can also be devastating and the density of these on some local holiday parks, along with the huge increase in the population during the visitor season does not appear to have been considered by the Authority in developing its proposals.

“Having discussed your proposals with local firefighters it would appear that, in their professional opinion, there is an alternative to the options in the consultation paper which is yet to be explored by the Fire and Rescue Authority which would enable the retention of 24/7 cover in Rhyl and increase the number of households able to receive a 20 minute response beyond those in your options while still creating three new hub stations to serve rural North Wales. I understand that the cost of the alternative is likely to add around £20 per annum to the annual precept which is literally less than the cost of a packet of peanuts each week for a year.

“Given the above, I would urge the Fire and Rescue Authority to consider the alternative option as a matter of urgency.”

I have also attached some further reading below which will give some background.

The reason the Fire Service is requesting £1000,000 from each Authority is because they have forecasted a budget deficit of £6,000,000 for the year 24/25. This is purely a forecast and is based on a number of factors.

Inflationary Pressures – These have been felt across all sectors and households and it is difficult to gauge exactly how much this has increased costs for the Service;

Energy Costs – Similar to inflationary increases but how much extra has it added to the bills?

The Firefighter pay award – The Service budgeted for 4% but it ended at 7%. This meant they had to find an extra

The new £48 million training facility – Fire Service management want to build a new training centre. They have forecasted £48 million and £1.1 million of the £6 million deficit is needed to pay JUST THE INTEREST ALONE on an initial £25 million loan. The £25 million capital will not reduce and the Service intend to take out an additional £20 million and £3 million in the coming years. This initial £25 million burden has been approved by our Fire Authority Members, hence why it is added to the budget deficit. ***It is worth noting that Cheshire Fire and Rescue built a new state of the art training centre, way and above what we need in North Wales, and it cost them £11.9 million.

Wastage and a culture of Spending – An over reliance on overtime (increased rates), buying “the best of the best kit”, constant renewal and upgrade of fire engines (the ones we have are fine), leasing buildings when we have ones we own, an abundance of white fleet vehicles, fruitless initiatives (the current consultation is expecting to cost £120,000+), a 3-fold increase in non-operational staff, creation of new departments (Finance), legal fees have increased and just recently, a massively costly project called The Direct Entry Scheme (£160k for 1 person).

Under the administration of the previous Chief Fire Officer Simon Smith, there was never an overrun-on budget and in some occasion, an underspend was achieved. It has only been in the last 2 years where we have seen this loosening of the purse strings.

Less than 2 years ago, the Chief Fire Officer requested £2.4 million extra from the Fire Authority to undertake a re-organisation of the Service management structure. The net result of this “re-organisation” was that every single manager from Station Manager through the Chief Fire Officer all received an above inflationary pay rise. This hadn’t been requested by any manager nor had it formed part of an annual pay award. This was an overnight uplift in all of their wages. Operational Firefighters received a selection of chocolates.

On Tuesday, Gwynedd Cabinet wrote to the Chief Fire Officer asking her to undertake a review of senior manager positions. They have identified that we as a medium-small fire service, serving a population 700,000 population, have the same, or in some cases, more managers than large metropolitan brigades. We are top-heavy in managers.

North Wales has the following:

1 x Chief Fire Officer
1 x Deputy Chief Fire Officer
4 x Assistant Chief Fire Officers (2 post currently vacant)

The combined cost for these 6 posts is in the region of £1 million. The Service has been operating with the 2 vacant positions for a number of months but intend filling them after the consultation. This is a cost of around £300,000. Frontline operational response is under threat and underfunded and yet principal posts are seemingly essential.

I will finish with the current costs of the Options that have been put out for consultation. Each one involves a decline or downgrading of operational response, in an attempt to prop up other failing areas. Each Option comes at a cost to the Tax Payer.

Option 3 - £1 increase per household per annum (70+ job losses, 5 station closures, downgrading 24hrs stations and loss of an appliance at Wrexham)

Option 2 - £1.43 increase per household per annum (downgrading 24hr stations, loss of an appliance, slower response to incidents in Clwyd area)

Option 1 - £1.68 increase per household per annum (downgrading Rhyl/ Deeside)

Option Growth - £2 increase per household per annum (maintain all standards of current cover but also open 3 stations in rural areas and create 20+ new jobs, investing in communities and massively improving response times across the region).

At the public consultation last week in Conwy, when the attending public were offered a Growth option (it can be re-branded if growth in a time of constraint is not palatable) voted unanimously for it. 100% agreement and appetite to pay for an improved service.

It is less than a pint of milk a month over Option 1.

Regards

Gavin Roberts

Eitem 5.1

P-06-1161 Casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Nicola Jones, ar ôl casglu cyfanswm o 60 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Credwn fod llawer o'r rheini sy'n gadael gofal yn cerdded allan o'u lleoliadau gan nad oes llawer o ystyriaeth yn cael ei rhoi i'w profiadau blaenorol na'u lles meddyliol er bod gan fabi hawl i aros gyda'i riant/rhieni os yw'n ddiogel gwneud hynny.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Mae llawer o rheini sy'n gadael gofal yn profi ymyrraeth gan wasanaethau cymdeithasol pan fyddant yn rhoi genedigaeth. Mae hyn yn aml oherwydd eu hanes a/neu ddiffyg canllawiau gan eu rhieni eu hunain. Heb os, mae'r rhai sy'n gadael gofal wedi profi trawma yn ystod eu plentyndod ac yn aml yn dioddef o orbryder yn eu bywydau fel oedolion. Yn aml nid ydyn nhw erioed wedi teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi yn ystod eu plentyndod ac mae cael eu lle eu hunain wedi bod yn hafan ddiogel iddynt lle maen nhw'n gallu ymlacio'n llwyr. Ar hyn o bryd, os oes unrhyw bryderon, mae rhiant yn cael ei gludo o'i gartref, ei deulu a'i ffrindiau ac yna'n cael ei roi mewn cartref maeth neu gartref preswyl i'w asesu heb fawr o ystyriaeth i'r hyn sy'n sbarduno'r rhiant, a'i les meddyliol. Credwn fod hyn yn aml yn achosi cyfnod emosiynol dros ben ac yna mae rhieni'n gadael eu lleoliadau gan ddifaru am byth y penderfyniad brys a wnaed mewn eiliad bryderus na fyddai wedi digwydd pe bai'r sefyllfa wedi cael ei thrin â mwy o empathi. Rydym am wybod y ffeithiau i weld a oes angen ateb gwell ar gyfer y rhiant a'r plentyn.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Gorllewin Caerdydd
- Canol De Cymru

P-06-1337 Prynu Sycharth, Cartref Owain Glyndŵr, er mwyn cadw'r safle yn saff i genedlaethau'r dyfodol

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Elfed Wyn ap Elwyn, ar ôl casglu cyfanswm o 10,539 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae hanes yn bwnc mor allweddol i ni yma yn Nghymru. Mae straeon o'n cenedl yn dangos i ni sut rydym ni wedi datblygu dros y canrifoedd i fod fel rydym heddiw. Mae cymeriadau wedi lliwio'r hanes diddorol yma, gyda neb mor amlwg ag Owain Glyndŵr, sydd wedi cyfrannu gymaint i'n hunaniaeth, ac mae llawer yn ei ddefnyddio fel symbol y genedl. Mae'n ddigalon iawn i weld bod cartref Glyndŵr, sef Sycharth, bron yn angof yng nghanol cefn gwlad Powys, a dyw'r lle ddim yn hygyrch iawn i bobl gael ymweld.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Mae'n amser i'r Llywodraeth fynd ati i sicrhau bod y safle hollbwysig yma'n cael ei gadw'n saff i'r genhedlaeth nesaf, drwy ei brynu a'i wneud yn fwy hygyrch i bobl allu mynd yno i werthfawrogi'r safle bendigedig yma.

Mae'n siomedig gweld yr holl gestyll o gwmpas Cymru'n cael eu gwarchod, a bod y safle yma prin yn cael ei hysbysebu, heb sôn am ddathlu.

Amser newid y ffordd edrychwn ni ar hanes Cymru, gan ddechrau gyda Sycharth.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Dwyfor Meirionnydd
- Canolbarth a Gorllewin Cymru

P-06-1337 Prynu Sycharth, Cartref Owain Glyndŵr, er mwyn cadw'r safle yn saff i genedlaethau'r dyfodol, Gohebiaeth - Deisebydd i'r Pwyllgor, 04.10.23

Mi oedd hi'n braf cael bod yn bresennol yn gwylio'r drafodaeth yn y Senedd ar y 13eg o Fedi, ac rwy'n ddiolchgar iawn o'r pwyntiau positif oedd wedi dod o'r llawr gan nifer o ASC yn cefnogi'r ddeiseb a'i hamcanion; ond, Siomedig iawn oedd clywed geiriau'r Dirprwy Weinidog y celfyddydau, Chwaraeon a Thwristiaeth, Dawn Bowden ASC. Yr unig ffordd gellir disgrifio ei geiriau yw eu bod yn sylwadau paradocsaid iawn, oherwydd bod y gweinidog wedi disgrifio sefyllfa Sycharth fel safle sydd ddim dan fygythiad, ac o fewn yr un araith wedi disgrifio'r lle yn rhy fregus i'w hysbysebu rhagofn iddo dynnu pobl yno i grwydro.

Tydi'r adnoddau ar y we sy'n egluro hanes y safle cafodd ei grybwyll gan y Gweinidog ddim yn ddigonol nac ychwaith yn ymateb i amcanion yr ymgyrch fod safle Sycharth ddim yn derbyn y parch a'r sylw y dylai ei dderbyn. Mae'r dal nifer o bobl Cymru ddim yn ymwybodol o hanes eu hunain, nac ychwaith o bwysigrwydd safle fel Sycharth fel rhan o ddatblygiad ein hanes a'n cenedl.

Ydi'r Llywodraeth felly yn dal i weld hanes Cymru fel rhywbeth dylid ei anghofio, a'i wthio i'r neilltu? Dyna'r ymdeimlad sy'n codi o ymateb Llywodraeth Cymru hyd yn hyn. Mae dal cyfle i rywbeth positif ddod o'r ymgyrch yma a dwi'n galw ar y Llywodraeth i gymryd y camau i brynu, hysbysebu a sicrhau'r safle yma er lles ein hanes, ac i annog i bobl Cymru ddeall hanes y genedl.

P-06-1358 Adolygu'r cyllid annigonol ar gyfer ysgolion yng Nghymru

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Martin Price, ar ôl casglu cyfanswm o 7,007 lofnodion.

Geiriad y ddeiseb:

Mae gan lawer o ysgolion ddiffyg yn y cyllidebau a osodwyd ganddynt ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24. Yn fwy na hynny, mae'n bosibl y bydd y rhan fwyaf o ysgolion yn cyhoeddi diffyg yn eu cyllidebau ar gyfer 2024-25. Mae'r effeithiau ar blant yn ysgolion Cymru yn ddifrifol – addysgu a dysgu gwaeth, adeiladau gwaeth, pryderon ynghylch diogelwch a gorflinder staff.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Paratowyd y ddeiseb hon gan Gadeiryddion Cymdeithasau Llywodraethwyr ledled Cymru.

Mae effeithiau cyllid isel ar blant yn ysgolion Cymru fel a ganlyn:

- Gostyngiad yn ansawdd y dysgu ac addysgu
- Cymarebau oedolion/dysgwyr uwch
- Iechyd a diogelwch – llai o oruchwyliaeth oedolion, er enghraifft amser cinio ac egwylion
- Llai o staff cymorth, sy'n golygu bod plant ag anghenion dysgu ychwanegol mewn perygl o beidio â chael yr help sydd ei angen arnynt
- Llai o oedolion mewn ystafelloedd dosbarth, sy'n rhoi pawb mewn perygl
- Llai o athrawon – naill ai oherwydd staff yn gadael a neb yn cymryd eu lle neu oherwydd dileu swyddi
- Llai o waith cynnal a chadw ar adeiladau sy'n arwain at bryderon diogelwch
- Mwy o straen ar benaethiaid ac uwch-staff, sy'n arwain at fwy o absenoldeb oherwydd salwch a gorflinder

Ac ar yr un pryd mae ysgolion yn brwydro i roi diwygiadau addysgol ar waith. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i adolygu ar fyrder lefel y cyllid ar gyfer addysg ar gyfer y flwyddyn ariannol hon a'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae ein plant yn haeddu'r addysg orau ac ni ddylent ddioddef oherwydd toriadau ariannol.

Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad

- Bro Morgannwg
- Canol De Cymru